# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR MATHAFARN EITHAF

**COFNODION** o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd yn y Llyfrgell, Benllech ar Nos Fawrth, 23ain Ebrill, 2019, am 7.00 o'r gloch.

**PRESENNOL** Mr R O Jones, (Cadeirydd), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr D Humphreys, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr P Day, (Benllech B), Mrs Sioned Edwards, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A),

## 129 YMDDIHEURIADAU A CHYD-YMDEIMLO

Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb gan y canlynol:-

Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr G Owen, (Llanbedrgoch).

Cyd-ymdeimlwyd â Mr K F Griffiths, yn ei brofedigaeth lem o golli ei fam yn ddiwerddar.

## 130 YMWELIAD

Cafwyd ymweliad gan Mr Dylan Owen, yn dilyn Arolwg Anghenion Tai ardal y Cyngor. Roedd ymateb eitha siomedig i'r arolwg, gyda 62 o deuluoedd wedi ymateb. Mae'r arolwg wedi dangos bod angen Tai Fforddiadwy yn yr ardal. Cafwyd trafodaeth frwd ar y mater gan yr Aelodau, ac awgrymodd Mr Owen y buasai o fudd i ni wahodd Cwmni Adeiladu Clwyd/Alun atom i'r Cyngor i drafod ymhellach.

## 131 DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cafwyd datganiadau o ddiddordeb gan Mr D Humphreys, (Benllech B), a Mrs W Owen, (Llanbedrgoch).

## 132 COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd Gofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y 25ain o Mawrth 2019.

## LLWYBRAU FFYRDD A PHALMENTYDD.

### 133 MATERION PRIFFYRDD AMRYWIOL

Adroddwyd gan aelodau – amrywiol faterion oedd angen sylw.

## TALIADAU A CHYFRIFON

**134 BILIAU –** Mis Ebrill 2019.

| **Telir i:-** | **Swm (£)** |
|---|---|
| Edwards Accounting | 30.00 |
| Mr Arthur Griffith (Cyfieithydd) | 60.00 |
| Cyflog Arwel Jones (Clerc) | 1170.72 |
| HMRC | 195.80 |
| Costau Teithio (Clerc) | 40.80 |
| Hurio Offer Cyfieuthu (25 Mawrth) - Menter Môn | 25.00 |
| Taleb Ffôn Swyddfa | 20.00 |
| Anglesey Bollard Ltd (Planters) | 2988.00 |
| Ardrethi Annomestig – Maes Parcio | 723.25 |
| Papur Bro 'Yr Arwydd' | 50.00 |
| Yr Urdd – Rhanbarth Môn | 100.00 |
| Mr R Edwards – Torri gwair/llwybrau - am 2018 | 3631.87 |
| ASL – Llungopio | 9.54 |

### 135 CYFRIFON

Cyflwynwyd – cyfrif yn dangos manylion y taliadau a wnaethpwyd gan y Clerc (yn cynnwys taliadau o dan gynllun dirprwyo cyfredol y Cyngor) ym mis Ebrill 2019.

**PENDERFYNWYD – i nodi'r cyfrif a chytuno'r taliadau.**

### 136 CYLLIDEB Y CYNGOR

Cyflwynwyd – manylion o dderbyniadau a gwariant y Cyngor i gymharu a'i gyllideb am y cyfnod o 1 Ebrill 2019 i ddiwedd Mawrth 2020.

**PENDERFYNWYD – i nodi a chytuno'r manylion**

## MATERION CYFFREDINOL (GOHEBIAETH)

1. Derbyniwyd e bost gan Mrs Carol Hulme parthed digwyddiad yn Maes Parcio'r 'Jolly Fryer', yn ddiweddar. Trafodwyd y mater gan yr Aelodau. Penderfynwyd nodi'r hyn a ddigwyddodd a lleisio consyrn, drwy lythyr i Berchennog y 'Jolly Fryer'.
2. Yn dilyn e bost Mrs Jenet Peers parthed diffyg arwydd pwyntio ffordd i Llanbedrgoch – penderfynwyd gofyn i Gyngor Môn am osod arwydd newydd.
3. Cadarnhawyd gan y Clerc ein bod wedi derbyn taliad yn dilyn les y toiledau gan Ms Manon E Roberts (Cyfreithwraig TREH&Co) - £11,564.50.
4. Derbyniwyd Archeb parthed TCC am £1,975.00 gan Heddlu Gogledd Cymru.
5. Derbyniwyd e bost gan Ms Rhian W Jones parthed Cofnodion Cyfarfod o'r Fforwm Cyswllt Ynys Môn (14 Mawrth 2019), ac hysbysiad o'r cyfarfod nesaf ar 18 Gorffennaf 2019.
6. Cafwyd e bost gan Ms Tracy Gilmartin-Ward – Ymgynghoriad ar Warediad o Wastraff Niwclear. Cafwyd sylwadau cadarnhaol.
7. Caniatawyd taliad **Grant 137** i Swyddogion Capel Soar Rhosfawr tuag at gostau cynnal a chadw mynwenti'r Capel (Anfonwyd siec am £200).
8. Bwletin newyddion 'Un Llais Cymru'.
9. Llythyr o ddiolch gan Mr Eryl Williams, yn dilyn cyfraniad tuag at Urdd Gobaith Cymru – Rhanbarth Môn.

## MATERION CYFFREDINOL

1. Trafodwyd y cais gan Mr Richard Edwards (Torrwr Gwair) am gael codi y taliad am dorri'r llwybrau o £10 i £15 y flwyddyn nesaf. Gofynnwyd i'r Clerc gael mwy o fanylion gan Mr Edwards am nifer a maint y llwybrau ayb.
2. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan yr Aelodau parthed y llythyr a anfonwyd gan y Clerc ar ran y Cyngor at Mr Ron Eglin yn datgan siomiant wedi methiant y fenter gymunedol yn y Clwb Bowlio.
3. Erbyn hyn, rydym wedi derbyn allweddi'r toledau glan y môr â thoiledau'r Sgwâr Benllech, Trefnwyd Mr William Owen, i ofalu amdanynt. Gofynnwyd i'r Cadeirydd â'r Clerc drafod materion parthed cyflog, oriau gwaith a chytundeb gyda Mr Owen.
4. Trafodwyd a Mabwysiadwyd Asesiad Risg am 2019/20.
5. Cafwyd trafodaeth bellach ar Ariannu Prosiectau Cymunedol amrywiol yn yr Ardal. Cyflwynwyd 3 amcan-bris ar gyfer man chwarae yn y Ganolfan, Llanbedrgoch, gan Mrs Wenda Owen, ac roedd yr Aelodau yn gefnogol iawn i'r fenter. Gofynnwyd hefyd, i Mr Ieuan Williams i gysylltu â Phennaeth Ysgol Goronwy Owen, Benllech i weld tybed a oes modd ariannu menter tebyg yno.

**CYNLLUNIO**

**137 CEISIADAU**

**PENDERFYNWYD – trafodwyd y Ceisiadau Cynllunio isod gan y Cyngor, a phenderfynwyd:-**

**(i) YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO FPL/2019/67 - CANIATAU**

Cais llawn ar gyfer dymchwel yr adeilad presennol, codi annedd newydd, gosod pecyn trin carthffosiaeth ynghyd â chreu mynedfa newydd i gerbydau yn The Moorings, Traeth Coch, Pentraeth.

**(ii) YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO FPL/2019/83 - CANIATAU**

Cais llawn i newid defnydd siop presennol (Dosbarth Defnydd A1) i gaffi (Dosbarth Defnydd A3) yn Fron Uchaf, Benllech.

**(iii) YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO FPL/2019/79 - CANIATAU**

Cais llawn i newid defnydd ystafell gymunedol presennol i annedd 1 gwely yn Waun Dirion, Benllech.

**(iv) YMGYNGHORIAD CYNLLUNIO 30C827 - CANIATAU**

Cais ôl-weithredol ar gyfer lleoli 2 Gwt Bugail a 2 ‘pod’ glampio yn Sibrwd y Ffair, Benllech.

Daeth y Cyfarfod i ben am 9 o’r gloch.

# LLANFAIR MATHAFARN EITHAF COMMUNITY COUNCIL

**MINUTES** of the Councils meeting held at The Library, Benllech on Tuesday, 23rd April, 2019, at 7.00 p.m.

**PRESENT** Mr R O Jones, (Chairman), (Benllech A), Ms G M Davies, (Benllech A), Mr D Humphreys, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch), Mrs C A Hulme, (Benllech B), Mr P Day, (Benllech B), Mrs Sioned Edwards, (Benllech B), Mr I Williams, (Benllech B), Mrs B E Gall, (Benllech B), Mr K F Griffiths, (Benllech A).

## 129 APOLOGIES AND VOTE OF SYMPATHY

Apologies were received by the following:-

Mr G Harker-Roberts, (Brynteg), Mr G Owen, (Llanbedrgoch).

A Vote of Sympathy was extended to Mr K F Griffiths due to the passing of his mother recently.

## 130 VISIT TO THE COUNCIL

Mr Dylan Owen (Anglesey County Council), was welcomed to the Meeting, by the Chairman, following the Housing Needs Survey in the Community Council Area. A disappointing response with 62 families filling in the questionnaire. The Survey has shown that there is a need for affordable housing in the area. The Members discussed the matter in hand, and Mr Owen suggested that we arrange a meeting with the Clwyd/Alun Building Company, to discuss the matters further.

## 131 DECLARATIONS OF INTEREST

Declarations of interest were made by Mr D Humphreys, (Benllech B), Mrs W Owen, (Llanbedrgoch).

## 132 MINUTES

The Chair signed as a true record the Minutes of the Meeting of the Council held on the 25th March 2019.

## FOOTPATHS ROADS AND FOOTWAYS.

### 133 VARIOUS HIGHWAY MATTERS

Reported by members – various matters requiring attention.

## PAYMENTS AND ACCOUNTS

### 134 BILLS - April 2019

| Payee:- | Sum (£) |
|---|---|
| Edwards Accounting | 30.00 |
| Mr Arthur Griffith (Translator) | 60.00 |
| Cyflog Arwel Jones (Clerk's Wages) | 1170.72 |
| HMRC | 195.80 |
| Traveling Costs (Clerk) | 40.80 |
| Hire of Translation Equipment (23 April) - Menter Môn | 25.00 |
| PAYG Telephone Voucher (Office) | 20.00 |
| Anglesey Bollard Ltd (Planters) | 2988.00 |
| Non-Domestic Rates - Parking Ground | 723.25 |
| Local Community Paper 'Yr Arwydd' | 50.00 |
| The Urdd – Anglesey Area | 100.00 |
| Mr R Edwards – Grass Cutting/Footpaths - 2018 | 3631.87 |
| ASL – Photocopies | 9.54 |

### 135 ACCOUNTS

Submitted – account showing details of payments made by the Clerk (including those made in accordance with the Councils current scheme of Delegation) in April 2019.

**RESOLVED – to note the account and agree the payments.**

### 136 COUNCILS BUDGET

Submitted – the details of the Council's receipts and payments as compared with its budget for the period from 1 April 2019 to the end of March 2020.

**RESOLVED – to note and agree the details**

## GENERAL MATTERS (CORRESPONDENCE)

1. The e mail received by Mrs Carol Hulme regarding the incident at the 'Jolly Fryer' Car park, was discussed by the Members, and it was decided that a letter will be sent to the Owner of the 'Jolly Fryer' voicing our concerns.
2. Following e mail received by Mrs Jenet Peers regarding sign post to Llanbedrgoch – the Members agreed that a new sign post should be requested by Anglesey Council.
3. The Clerk announce that a cheque was received by Ms Manon E Roberts (Solicitor) TRE&H in respect of Lease of Toilets - £11,564.50.
4. Conformation – Purchase Order received by North Wales Police regarding the CCTV - £1,975.00

## GENERAL MATTERS

1. A request was made to the Clerk from Mr Richard Edwards (Handyman) asking if the fee for footpath maintenance could be increased from £10 to £15 next year, due to amount of work required on them, regarding health and safety regulations. The Clerk was instructed to find out more details regarding the number and size of footpaths etc.
2. The Members thanked the Clerk for the letter he sent on their behalf to Mr Ron Eglin, expressing their dismay at the failed Community Venture at the Bowling Club.
3. The keys for the Seaside Car park and Benllech Square Toilets have been received, and opened on a daily basis by Mr William Owen. The Chairman and Clerk will discuss matters relating to working hours, responsibilities, wages and contract etc. with Mr Owen.
4. The Annual Risk Assessment for 2019/20 was approved and adopted by Members.
5. Further discussions regarding Funding Various Community Projects were addressed by the Members. Mrs Wenda Owen, presented three quotations on behalf of Llanbedrgoch Community Hall in respect of developing the play area. The Members were very supportive towards this venture. Mr Ieuan Williams was also requested to consult the Head Teacher of Goronwy Owen School, Benllech to find out if a similar venture at the school could be funded by the Council.

## PLANNING

## 137 APPLICATIONS

**RESOLVED – the following Planning Applications were discussed by the Council:-**

(i) **PLANNING CONSULTATION FPL/2019/67 - GRANTED**

Full application for the demolition of existing dwelling, erection of new dwelling, installation of package treatment plant together with creating a new vehicular access at The Moorings, Traeth Red Wharf Beach, Pentraeth.

(ii) **PLANNING CONSULTATION FPL/2019/83 - GRANTED**

Full application for the change of use of existing shop (Use Class A1) into a cafe (Use Class A3) at Fron Uchaf, Benllech.

(iii) **PLANNING CONSULTATION FPL/2019/79 - GRANTED**

Full application for change of use of existing community room into a 1 bedroom dwelling at Waun Dirion, Benllech.

(iv) **PLANNING CONSULTATION 30C827 - GRANTED**

Retrospective application for the siting of 2 Shepherd's Huts and 2 Glamping pods at Sibrwd y Ffair, Benllech.

The meeting concluded at 9pm.